

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI, Y GYFADRAN GWASANAETHAU
CYMDEITHASOL**

TÎM COMISIYNU

ADRODDIAD MONITRO CONTRACTAU

<u>Enw / cyfeiriad y darparwr:</u>	Y Bartneriaeth Gofal (Partnership of Care), 27a Commercial Street, Ystrad Mynach, Caerffili, CF82 7DW
<u>Dyddiad yr ymweliad:</u>	dydd Mawrth, 9 Ebrill 2019
<u>Swyddog(ion) sy'n ymweld:</u>	Amelia Tyler: Swyddog Monitro Contractau, CBS Caerffili
<u>Yn bresennol:</u>	Janine Darling: Unigolyn cyfrifol, Y Bartneriaeth Gofal Gemma James: Rheolwr cofrestredig, Y Bartneriaeth Gofal

1. Cefndir

- 1.1 Mae'r Bartneriaeth Gofal wedi bod yn ddarparwr Gwasanaethau Gofal Cartref o fewn y fwrdeistref er 2006. Adeg yr ymweliad, roedd y sefydliad yn darparu oddeutu 1353 awr o ofal a chymorth bob wythnos i 143 o bobl (gostyngiad o 185 awr ac 1 cleient ers yr ymweliad blaenorol y llynedd).
- 1.2 Mae ystod y tasgau gofal a chymorth y mae'r Bartneriaeth Gofal yn ymgymryd â nhw yn cynnwys gofal personol (e.e. cymorth â rhoi bath, ymolchi, gwisgo, gweinyddu meddyginiaeth, gofal personol), gofal maethol (e.e. cymorth â bwyta ac yfed, paratoi bwyd a diod, a bwyd a monitro faint o fwyd sy'n cael ei fwyta), gofal symudedd (e.e. cymorth â mynd i mewn ac allan o'r gwely, symud yn gyffredinol), a gofal yn y cartref (e.e. cymorth â glanhau, siopa, gwaith tŷ arall, trefnu apwyntiadau).
- 1.3 Yn dibynnu ar y canfyddiadau yn yr adroddiad, gellir rhoi camau cywirol a datblygiadol i'r Bartneriaeth Gofal eu cwblhau. Camau cywirol yw'r rheiny y mae'n rhaid eu cwblhau (yn unol â'r hyn a bennir gan ddeddfwriaeth, ac ati) a chamau datblygiadol yw'r rheiny yr ystyrir eu bod yn arfer da.
- 1.4 Adolygodd yr ymweliad monitro argymhellion a wnaed yn ystod yr ymweliad blaenorol a gynhaliwyd ar 17 Ebrill 2018 a chwblhaodd yr offeryn monitro a ddefnyddir gan y Tîm Comisiynu hefyd. Nododd yr ymweliad blaenorol 3 cham cywirol a 4 cam datblygiadol: ailedrychwyd ar y rhain, ac amlinellir y canfyddiadau yn adran 2 isod.

2. Argymhellion blaenorol

- 2.1 Rhaid i gofnodion dyddiol fod yn adlewyrchiad cywir o les yr unigolyn a'r tasgau a gwblhawyd. Rhaid i gofnodion fod yn gywir, yn ddarllenadwy, wedi'u llofnodi a'u dyddio (Safon Ofynnol Genedlaethol 16.3 gynt, ond bellach, daw o dan Reoleiddiad 59 RISCA). Gwnaed yr argymhelliad hwn yn wreiddiol ym mis Mehefin 2016.
Ni fodlonwyd. Nid oedd tystiolaeth o hyn yn y nodiadau dyddiol a welwyd. Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn gyfyngedig iawn. Mae'n siomedig fod y cam gweithredu

hwn wedi bod yn mynd rhagddo ers tro a bod rhai gofalwyr ddim yn gallu cofnodi'r manylion angenrheidiol yn gywir o hyd.

- 2.2** Dylai cynlluniau cyflenwi gwasanaethau (cynlluniau personol) fod yn gyson â'r holl wybodaeth a ddarparwyd yng nghynllun gofal CBS Caerffili (Rheoleiddiad 15 RISCA), ac ymgorffori'r wybodaeth. Y dyddiad cau gwreiddiol oedd 20 Mehefin 2013.

Bodlonwyd. Roedd y cynlluniau personol yn gyson â chynlluniau gofal CBSC ar y 3 ffeil a welwyd yn ystod yr ymweliad.

- 2.3** Os na fydd angen yr amser llawn ar gyfer yr alwad, rhaid i'r Rheolwr gysylltu â'r tîm perthnasol i'w hysbysu bod angen adolygiad i leihau amseroedd galwadau (Contract Gofal Cartref Caerffili, Cymal 9.5)

Bodlonwyd yn rhannol. Argraffwyd adroddiadau ar gyfer 2 o bobl sy'n derbyn pecyn gofal ac roedd y naill a'r llall ohonynt yn cael 4 galwad y dydd, yn para 30 munud, 15 munud, 15 munud a 30 munud: er bod bylchau yn y ddau adroddiad, roedd un ohonynt yn dangos yn gyson bod yr alwad gyda'r nos yn cymryd llai na'r amser a neilltuwyd. Nodwyd 4 achlysur pan oedd galwadau wedi cael eu cwblhau mewn llai na 6 munud yn ystod cyfnod o 2 - 3 wythnos.

- 2.4** Ni ddylai gofalwyr ddefnyddio byrfoddau yn y cofnodion dyddiol.

Bodlonwyd yn rhannol. Nodwyd bod gwelliannau wedi'u gwneud, fodd bynnag, mae rhai gofalwyr yn defnyddio byrfoddau o hyd, fel FBW i olygu 'golchi'r corff yn llawn' ('full body wash'): mae angen i staff fod yn ystyriol fod nodiadau dyddiol yn ddogfennau cyfreithiol a dylent fod yn glir i unrhyw un sy'n eu darllen.

- 2.5** Pan gynhelir adolygiadau, argymhellir y dylid dal cofnod o ba wybodaeth a ddefnyddiwyd/gyda phwy y siaradwyd er mwyn cwblhau'r adolygiad.

Bodlonwyd yn rhannol. Nid oedd yn glir ar un ffeil pa wybodaeth oedd wedi cael ei defnyddio i gwblhau'r adolygiad, ond roedd yn ymddangos bod y ffeil hon wedi cael ei rhoi at ei gilydd yn dilyn sgwrs â'r unigolyn sy'n derbyn gofal. Anfonwyd tystiolaeth at y swyddog monitro contractau ar gyfer cleient arall lle cafwyd adborth mewn perthynas ag offer a brynwyd. Argymhellwyd yn y gorffennol wrth gynnal adolygiad, y dylid cael adborth gan yr unigolyn a'i berthynas/pherthynas agosaf (lle bo'n briodol), y prif ofalwyr, a'r gweithiwr cymdeithasol, os bydd angen. Trafodwyd gyda'r rheolwr a chytunwyd y byddai adolygiadau'n cynnwys blwch er mwyn gweithredu fel sbardun i gynnwys adborth gweithiwr cymdeithasol, pe bai angen (er y cydnabyddir y gallai hyn fod unwaith y flwyddyn yn unig, tra bydd yr adolygiadau'n cael eu cwblhau bob chwarter).

- 2.6** Dylai gweithwyr allweddol ymgorffori mwy o wybodaeth am hanesion bywyd y bobl y maent yn gweithio gyda nhw yn eu ffeiliau. Bydd hyn yn cynorthwyo staff newydd i gael dealltwriaeth o'r unigolyn i helpu iddo/iddi deimlo'n fwy ymlaciedig o gwmpas gofalwr newydd sy'n dod i'w gartref/chartref.

Bodlonwyd yn rhannol. Roedd y wybodaeth hon yn anghyson ar draws y 3 ffeil a welwyd: nid oedd unrhyw hanes bywyd yn y ffeil gyntaf, ond roedd argrafflun sylfaenol yn y cynllun personol. Roedd yr ail ffeil yn cynnwys gwybodaeth gyfyngedig iawn yn y cynllun personol, ond ni ddywedodd a oedd hi wedi gweithio na beth oedd ei hoffterau. Nododd y swyddog monitro contractau fod y drydedd ffeil yn cynnwys gwybodaeth am hoffterau'r gŵr dan sylw, ei fod wedi gweithio fel glöwr a'i fod yn

mwynhau gwaith coed a garddio. Argymhellir y dylai ffeiliau fod yn gyson, a gofynnir am gymaint o wybodaeth ag y bo modd yn ystod yr asesiad cychwynnol, neu datblygir y wybodaeth fel rhan o'r adolygiad 6 wythnos pan fo aelodau staff wedi sgwrsio a dod i wybod ychydig mwy am yr unigolyn.

- 2.7** Dylai cyfweiliadau gael eu cynnal gan o leiaf 2 aelod o staff sy'n meddu ar gymwysterau priodol.
Bodlonwyd. Roedd tystiolaeth ar y 2 ffeil a welwyd fod y ddau aelod o staff wedi cael eu cyfweld gan 2 aelod priodol o uwch staff.

3. Canfyddiadau o'r ymweliad

3.1 Unigolyn cofrestredig

- 3.1.1** Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf gan AGC ar 10.12.18 ac, ar y pryd, roedd pryderon ynghylch cofnodion recriwtio, y diffyg trefniadau ar gyfer goruchwyllo'r unigolyn cyfrifol yn y gwasanaeth gofal cartref, nid oedd cwynion yn cael eu cofnodi'n briodol ac roedd ystyriaeth annigonol yn cael ei rhoi i anghenion a dymuniadau pobl pan gaiff galwadau eu trefnu.
- 3.1.2** Dywedwyd wrth y swyddog monitro contractau fod yr unigolyn cyfrifol yn cael cyfarfodydd wythnosol gyda'r rheolwr cofrestredig ac y bydd y rheolwr yn dychwelyd i weithio oriau amser llawn ym mis Mai.
- 3.1.3** Ni chynhaliwyd unrhyw adroddiadau chwarterol yn dilyn arolygiadau gan yr unigolyn cyfrifol oherwydd amlygwyd nad yw'r gwasanaeth wedi'i gofrestru'n llawn eto. Fodd bynnag, dywedwyd wrth y swyddog monitro contractau y bydd hyn yn cael ei gynnal pan fydd cofrestru wedi cael ei gwblhau.
- 3.1.4** Nodwyd bod y datganiad o ddiben wedi cael ei adolygu yn ystod y 12 mis diwethaf a'i fod yn gyfoes. Os oedd y rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol yn absennol ar yr un pryd am gyfnod sylweddol, dywedwyd y byddai'r 2 ddirprwy reolwr yn ymgymryd â'r rôl rhyngddynt.

3.2 Recriwtio, hyfforddi a goruchwyllo

- 3.2.1** Adeg yr ymweliad, adroddwyd bod 44 aelod o staff wedi gadael yr asiantaeth a bod 61 aelod o staff wedi cael eu recriwtio yn ystod y 12 mis diwethaf. Y prif resymau dros staff yn gadael oedd o ganlyniad i deithio, cost tanwydd a chyfradd y cyflog.
- 3.2.2** Edrychwyd ar ffeiliau 2 aelod o staff fel rhan o'r broses fonitro ac roedd y naill a'r llall ohonynt yn cynnwys geirdaon, swydd-ddisgrifiadau a ffurflenni cais wedi'u gwirio (er y nodwyd nad oedd gan y ffurflenni cais unrhyw fecanwaith sgorio i amlygu'r broses gwneud penderfyniadau). Nododd y swyddog monitro contractau fod cofnodion cyfweiliadau hefyd ar gael ar y ddwy ffeil a'u bod yn cynnwys senarios ystyrlon i farnu addasrwydd yr ymgeisydd, h.y. beth fyddech chi'n ei wneud pe baech yn dod o hyd i gleient yn anymwybodol? Beth pe baech yn sylwi ar gamgymeriad mewn meddyginiaeth? Pa gamau fyddech chi'n eu cymryd pe bai rhywun roeddech yn darparu gofal iddo/iddi yn mynd yn ymosodol yn gorfforol ac/neu'n eiriol?

- 3.2.3** Nid oedd unrhyw fylchau heb esboniad o ran cyflogaeth; roedd ffotograffau'n bresennol hefyd, fel contract o gyflogaeth wedi'i lofnodi. Cofnodwyd niferoedd y gwiriadau dyddiedig gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'u dal ar ffeil, ac roedd y naill a'r llall o'r rhain o fewn 3 blynedd. Cydnabuwyd bod y rhain wedi eu cofnodi fel 'gwyrdd' sy'n dangos na chodwyd unrhyw faterion ar y dystysgrif. Dywedodd y rheolwr os bydd unrhyw un o'r rhain yn cael eu dychwelyd gydag unrhyw rybuddion neu euogfarnau, y byddent yn cael eu marcio fel 'coch' a byddai asesiad risg priodol yn cael ei gwblhau.
- 3.2.4** Roedd tystysgrifau hyfforddiant yn cael eu cadw ar ffeil a thystysgrifau am gwblhau eu cyfnod ymsefydlu yn llwyddiannus. Roedd dau fath gwahanol o dystysgrif ar y ffeiliau a welwyd, ac roedd angen i'r gofalwr lofnodi a dyddio un o'r rhain. Roedd tystiolaeth hefyd fod aelodau o staff newydd wedi ymgymryd â phroses gysgodi ystyrion i sicrhau bod pob agwedd ar y rôl yn cael ei chwmpasu a bod yr unigolyn yn hyderus i wneud y galwadau yn annibynnol.
- 3.2.5** Anfonwyd y matrices arfarnu at y swyddog monitro contractau trwy'r e-bost, a nodwyd mai'r unig fylchau oedd yn bresennol oedd ar gyfer yr unigolion sydd ar gyfnod absenoldeb mamolaeth. Darparwyd copi electronig cynhwysfawr o'r matrices hyfforddiant hefyd, a oedd yn glir iawn, yn fanwl ac yn hawdd i'w ddehongli. Cofnodwyd yr holl gyrsiau gorfodol fel meddyginiaeth, codi a chario, diogelu a rheoli heintiau gyda'r cyfnod diweddarau priodol, a'r dyddiad y daw eu hyfforddiant presennol i ben. Roedd gan aelod o staff uwch nifer o gelloedd gwag ar y matrices, ac esboniwyd mai'r rheswm am hyn oedd ei bod newydd ddechrau yn ei swydd ar 25.04.19 ac roedd ei henw wedi cael ei roi ar y daenlen yn barod iddi ddechrau. Nodwyd hefyd mai un o'r dyddiadau a gofnodwyd oedd Tachwedd 2019: credir mai camgymeriad teipio yw hwn; fodd bynnag, amlygir y dylid ond cofnodi cyrsiau ar y matrices pan fyddant yn gyflawn, er mwyn osgoi dryswch.
- 3.2.6** Roedd 2 aelod o staff nad oedd ganddynt ddyddiad wedi'i gofnodi ar gyfer hyfforddiant cymorth cyntaf, ac roedd un yn hwyr: argymhellir y dylai'r rheolwr sicrhau bod eu henwau wedi'u cofnodi ar gyfer y cyrsiau nesaf sydd ar gael o fewn tîm datblygu'r gweithlu Caerffili neu gyda'r darparwr a ddefnyddir gan yr asiantaeth.

3.3 Perfformiad gwasanaethau

- 3.3.1** Roedd yr adroddiadau monitro galwadau a ddarparwyd yn cynnwys nifer o fylchau lle nad oedd gofalwyr yn cofnodi i mewn ac allan / neu allan o alwadau; roedd nifer sylweddol o leoedd gwag yn un o'r adroddiadau hyn. Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd, rhaid i'r darparwr allu dangos tystiolaeth yn glir o'r amser y mae gofalwyr yn ei dreulio yn darparu gofal, ar seibiannau gorffwys ac yn teithio.
- 3.3.2** Fel rhan o'r broses fonitro, llenwodd y swyddog monitro contractau arolygon gyda 10 o bobl a oedd naill ai'n derbyn pecyn gofal neu roedd perthynas iddynt yn ei dderbyn. Roedd y pecynnau gofal yn amrywio o 2 awr i 21 awr yr wythnos. Er mwyn cael amrywiaeth eang o gleientiaid, roedd y pecynnau hefyd wedi bod ar waith mor ddiweddar â 6 mis i 4 blynedd.
- 3.3.3** Llenwyd 8 arolwg yn ystod ymweliad cartref, a llenwyd 2 arolwg dros y ffôn (1 gyda'r cleient ac 1 gyda pherthynas): O'r cartrefi yr ymwelwyd â nhw, nid oedd modd dod o

hyd i un ffeil. Dim ond un o'r ffeiliau a welwyd oedd yn cynnwys cynllun gofal cyfoes wedi'i gwblhau gan CBSC, nid oedd y cynllun ar waith mewn un ffeil, nid oedd dau gynllun gofal wedi'u dyddio, ac roedd 3 ohonynt wedi dyddio ac yn disgwyl cael eu hadolygu. Roedd pob un o'r 7 ffeil yn cynnwys cynllun personol cyfoes yn rhoi manylion am anghenion a hoffterau'r unigolyn. Cydnabuwyd bod pob un o'r ffeiliau'n cynnwys rhifau ar gyfer yr asiantaeth, gan gynnwys y rhif mewn argyfwng y tu allan i oriau, ac eithrio un ohonynt.

3.3.4 Dywedodd 4 o 10 arolwg eu bod wedi cwyno am y gofal a gafwyd: roedd un ohonynt ynglŷn â dod o hyd i feddyginiaeth ar lawr o ganlyniad i olwg gwael y cleient, dywedodd un ohonynt fod y gofalwr wedi gwrthod rhoi'r sbwriel yn y bin ag olwynion, roedd un perthynas o'r farn nad oedd staff yn ddigon gofalus pan oedd ei fam/mam yn ceisio symud o gwmpas, a chwynodd un ohonynt am aelod penodol o staff. Wedi i'r gŵyn gael ei gwneud trwy'r gweithiwr cymdeithasol, tynnwyd yr aelod o staff o'r alwad. Dywedodd pob un ohonynt eu bod yn fodlon â'r ffordd yr ymdriniwyd â'r gŵyn.

3.3.5 Pan ofynnwyd a oedd unrhyw beth y gellid ei wella ynglŷn â'r gwasanaeth, dywedodd un ymatebwr fod dau ofalwr rheolaidd yn gwneud yr alwad, ond os nad y naill neu'r llall o'r rhain fydd yn gwneud yr alwad, nid ydynt yn cael gwybod pwy arall fydd yn dod. Dywedodd dau berthynas nad oedd y llestri'n cael eu golchi'n iawn ac roedd yn ymddangos bod gofalwyr yn rinsio llestri o dan y tap oer a'r platiau'n cael eu gadael yn seimllyd ar y bwrdd diferu. Soniwyd hefyd nad yw'r prydau bwyd bob amser yn cael eu cyflwyno'n dda (a oedd yn golygu nad oedd eu mam yn bwyta'n iawn) a bod galwadau gyda'r nos bob amser yn gynnar pan fydd y gofalwr rheolaidd ar wyliau. Dywedodd un cleient fod bylchau'r alwad rhwng brechwast a chinio yn gallu amrywio rhwng 2 a 5 awr, ac os bydd galwadau'r bore'n rhy hwyr, bydd y wraig yn ceisio'i chael ei hun allan o'r gwely. Amlygwyd bod yr unigolyn wedi bod yn y gwely am 12 awr y diwrnod blaenorol, sy'n cynyddu'r risg o gael briwiau pwyso. Dywedodd dau berthynas arall wrth y swyddog monitro contractau, er bod yr unigolyn wedi cael diagnosis dementia, nad yw staff bob amser yn cynnig dewis ac maent yn teimlo bod y galwadau'n canolbwyntio i raddau helaeth ar y dasg, ac weithiau'n para am ryw 5 munud yn unig. Nid oeddent yn teimlo yr aethpwyd i'r afael â hyn yn briodol pan godwyd y mater. Dywedodd un ymatebwr mai'r unig beth y gellid ei wella, yn ôl ef/hi, oedd y ffordd mae'r swyddfa'n cyfathrebu, yn enwedig os bydd wedi cael gwybod bod aelod o staff yn hwyr. Dywedodd dau ymatebwr fod llawer o wahanol ofalwyr yn ymgymryd â galwadau.

3.3.6 Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr pa radd y byddent yn ei rhoi i'r gwasanaeth allan o 10: dywedodd un ohonynt 5 neu 6, dywedodd dau ohonynt 7, dywedodd un ohonynt 8, dywedodd pedwar ohonynt 9 a rhoddodd dau ohonynt 100% i'r gwasanaeth. Nodwyd bod teulu un cleient wedi dweud y byddent yn rhoi 5 neu 6 i'r gwasanaeth i adlewyrchu'r gwasanaeth yn gyffredinol, ond byddent yn rhoi 8 neu 9 i'r gwasanaeth pe baent yn canolbwyntio ar y galwadau gyda'r nos yn unig.

3.4 Cwestiynau'n gysylltiedig â gofalwyr

3.4.1 Fel rhan o'r broses fonitro, cafwyd adborth gan ddau aelod o staff a ddewiswyd ar hap: dywedodd y ddau ohonynt eu bod yn cael digon o amser i deithio rhwng galwadau a'u bod yn cael digon o amser i ddarparu'r gofal a amlinellir yn y cynlluniau personol, er bod un gofalwr wedi sôn bod y galwadau amser cinio'n gallu bod braidd yn dynn.

- 3.4.2** Pan ofynnwyd a oedd system rota'r swydd yn gweithio'n iawn, dywedodd y ddau ohonynt ei bod yn iawn, ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael cymorth gan eu goruchwyliwr. Pe bai ganddynt unrhyw broblemau â'r 'teithiau', byddent yn gallu siarad â'u rheolwr llinell i geisio datrys y mater.
- 3.4.3** Dywedwyd bod y ddau aelod o staff yn cael cyfnod ymsefydlu llawn gyda chysgodi i'w galluogi i gyflawni eu rôl yn llawn. Amlygodd un gofalwr iddi fod â'r cwmni ers 14 mlynedd ac esboniodd ei bod yn gallu mynd at ei rheolwr llinell os oedd ganddi unrhyw bryderon am unrhyw un o'r galwadau neu'r rôl.
- 3.4.4** Soniwyd bod y wybodaeth sydd ar gael yng nghartrefi'r cleientiaid yn gallu bod ychydig yn amwys weithiau, yn enwedig wedi iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Er mwyn sicrhau bod y gofal yn cael ei ddarparu yn unol â dymuniadau'r cleient, mae'n bwysig fod cymaint o wybodaeth ag y bo modd yn cael ei rhoi i'r gofalwyr, yn enwedig lle na all y cleient fynegi ei ddymuniadau neu pa dasgau y mae angen eu cwblhau.
- 3.4.5** Ni chodwyd unrhyw broblemau na phryderon gan y naill ofalwr na'r llall ac roedd y ddau ohonynt yn teimlo'n hyderus i allu codi'r materion yn uniongyrchol, pe baent yn codi.

4. Camau cywirol / datblygiadol

- 4.1** Camau cywirol (y dyddiad cau ar gyfer yr holl gamau cywirol yw 31 Gorffennaf 2017)
- 4.1.1** Dylai'r rheolwr cofrestredig gynnal archwiliadau o'r adroddiadau ECMS a chymryd camau priodol yn erbyn gofalwyr nad ydynt yn clocio i mewn / allan o'u galwadau. (Rheoleiddiad 41.5 RISCA)
- 4.1.2** Dylai cynlluniau personol fod ar gael i staff i gynorthwyo i ymgymryd â'r galwadau'n effeithiol. (Rheoleiddiad 15 RISCA)
- 4.1.3** Rhaid i gofnodion dyddiol fod yn adlewyrchiad cywir o les yr unigolyn a'r tasgau a gwblheir. Rhaid i gofnodion fod yn gywir, yn ddarllenadwy, wedi'u llofnodi a'u dyddio (Rheoleiddiad 59 RISCA). Gwnaed yr argymhelliad hwn yn wreiddiol ym mis Mehefin 2016.
- 4.1.4** Os nad oes angen yr amser llawn ar gyfer yr alwad mwyach, rhaid i'r Rheolwr gysylltu â'r tîm perthnasol i'w hysbysu bod angen cynnal adolygiad i leihau amseroedd galwadau (Contract Gofal Cartref Caerffili, Cymal 9.5)
- 4.2.5** Argymhellir pan gynhelir adolygiadau, y dylid cadw cofnod o'r wybodaeth a ddefnyddiwyd/gyda phwy y siaradwyd er mwyn cwblhau'r adolygiad. (Rheoleiddiad 15 RISCA)

4.2 Camau datblygiadol

- 4.2.1** Argymhellir y dylai ffurflenni cais gynnwys mecanwaith sgorio i gynorthwyo â gwneud y penderfyniad ynglŷn â ph'un a ddylid cyfweld â'r ymgeisydd ai peidio (Rheoleiddiad 35 RISCA)
- 4.2.2** Ni ddylai gofalwyr ddefnyddio byrfoddau yn y cofnodion dyddiol.
- 4.2.3** Dylai gweithwyr allweddol ymgorffori mwy o wybodaeth am hanesion bywyd y bobl y maent yn gofalu amdanynt yn eu ffeiliau. Bydd hyn yn cynorthwyo staff newydd i gael dealltwriaeth o'r unigolyn i helpu iddo/iddi deimlo'n fwy ymlaciedig o gwmpas gofalwr newydd sy'n dod i'w gartref/chartref.

5. Casgliad

- 5.1** O'r argymhellion blaenorol a wnaed yn ystod yr ymweliad diwethaf, roedd 2 wedi cael eu gwneud, 3 wedi'u bodloni'n rhannol a 2 heb eu bodloni. Nodwyd lle nad oedd yr argymhellion wedi cael eu cwblhau'n llawn, bod tystiolaeth o waith yn cael ei wneud tuag at fodloni'r rhain.
- 5.2** Er bod 8 o gamau wedi'u nodi, mae hyn yn deillio o'r templed monitro diwygiedig yn unol â'r ddeddfwriaeth newydd. Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad, nid oedd y gwasanaeth wedi'i gofrestru'n llawn yn unol â'r rheoliadau newydd adeg yr ymweliad, ond bydd yn gweithio tuag at yr un gofynion.
- 5.3** Roedd pob un o'r ffeiliau a welwyd wedi'u cyflwyno'n dda, yn drefnus ac wedi'u labelu'n glir, a oedd yn ei gwneud yn haws dod o hyd i'r wybodaeth angenrheidiol. Roedd y taenlenni a ddarparwyd yn glir, yn gynhwysfawr ac yn hawdd i'w defnyddio hefyd.
- 5.4** Mae'r adborth a gafwyd gan gleientiaid a staff gofal wedi cael ei adrodd yn ôl i'r asiantaeth yn unigol, ond yn gyffredinol, roedd yr adborth yn gadarnhaol, a'r prif negeseuon yn tueddu i fod ynglŷn â chysondeb gofalwyr ac amseroedd galwadau.
- 5.5** Yn unol â'r strategaeth monitro contractau, bydd yr ymweliad monitro nesaf yn cael ei gynnal ymhen rhyw 12 mis oni bai y tybir bod angen ei gynnal ynghynt. Hoffai'r Swyddog Monitro Contractau fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Rheolwr am ei hamser a'i lletygarwch yn ystod yr ymweliad.

Awdur: Amelia Tyler
Swydd: Swyddog Monitro Contractau
Dyddiad: 10 Mehefin 2019

D.S. Bydd yr adroddiad hwn ar gael trwy safle Rhyngrwyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd copïau caled o'r adroddiad ar gael i ddarpar breswylwyr a/neu'u teuluoedd hefyd, os byddant yn gofyn amdanynt.